

Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth, Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

22.09.2023

Ymddiheuriadau:

Kath Davies (Amgueddfa Cymru), Jon Cawley (Parc Cenedlaethol), Andrew Edwards (Prifysgol Bangor), Ashley Batten (Cadw), Gareth Jones (Cyngor Gwynedd), Gwyneth Hughes (Cyngor Gwynedd), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), Sara Scott (Cyngor Gwynedd), Kate Roberts (Cadw), Sian Rees (ICOMOS), Lucy Thomas (Cyngor Gwynedd).

Yn bresennol:

Yr Arglwydd Dafydd Wigley (Cadeirydd), Cyng. Nia Jeffreys, Michael Bewick (JW Greaves), Gary Robinson (Prifysgol Bangor, Zoom), Elen Roberts (Amgueddfa Cymru), Tom Simone (Cyngor Gwynedd), Esther Roberts (Amgueddfa Cymru), Ellen Bonner (Prifysgol Bangor), Ceri Williams (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Roland Wyn Evans (Cyngor Gwynedd), Hannah Joyce (Cyngor Gwynedd), Dafydd Gwyn (Govannon, Zoom), Dan Amor (Cyngor Gwynedd).

<p>1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</p> <ul style="list-style-type: none"> Nodwyd yr ymddiheuriadau, cafodd pawb eu croesawu can y Cadeirydd. 	
<p>2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi</p> <ul style="list-style-type: none"> Panel, Abergynolwyn - Mae'r Cyngor Cymuned wedi gwrthod yn garedig gynnig Cyngor Gwynedd o ail banel dehongli, a byddant yn gweithio efo Cyngor Gwynedd i archwilio ymyraethau eraill yn y pentref i ddarlunio eu treftadaeth llechi. Cyngor Gwynedd i ddiweddarau'r aelod o'r cyhoedd wnaeth godi pryderon am y panel cyntaf. Llwybr bws Blaenau Ffestiniog - anfon llythyr o bryder at Drafnidiaeth Cymru ynglŷn â'r newid yn yr amserlen. 	<p>HJ</p> <p>HJ</p>
<p>3. Diweddariad STyB</p> <p>Adolygiad o'r Cynllun Gweithredu</p> <p>Edrych ar symleiddio a diwygio camau gweithredu'r Cynllun Rheoli presennol i'w gwneud nhw'n fwy ystyrion ac adlewyrchol o'r STyB.</p> <p>Pwysigrwydd tynhau ein trefn adrodd wedi'i nodi. KR, HJ a DA wedi bod yn diweddarau'r cynllun gweithredu. Blaenoriaethau cyfredol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Dogfen Gofalu am Dirweddau Llechi Briffiau ar gyfer prosiectau cadwraeth Cronfa Ffyniant Bro (LUF) 	

- Y Gofrestr Risg
- Golygfeydd allweddol ICOMOS
- Cofnodi datblygiadau tai

Thema 5 - Dysgu

- Codwyd y pryder na roddwyd gymaint o flaenoriaeth i Thema 5 â rhai o gamau gweithredu eraill y Cynllun Rheoli. Ystyriaeth i sut i wella gweithrediad Thema 5.
- Cytunwyd y dylai 'dysgu' gynnwys dysgu anffurfiol a galwedigaethol.
- Gall swyddog addysg (arian y Loteri) helpu i gyd-dynnu'r thema.
- Bydd angen i ni dynnu ar yr amrywiaeth o arbenigedd dysgu mae'r aelodau partner yn amlwg yn eu meddu ac ail-gysylltu gyda'r brifysgol.
- Myfyrwyr prifysgol nawr yn cymryd rhan yn y gwaith cofnodi yn Norothea.
- **Cytunwyd y bydd gan y cyfarfod nesaf o'r Grŵp Buddion thema addysg/dysgu, a gall hynny arwain at sefydlu is-grŵp addysg erbyn y cyfnod Loteri nesaf. Cadw Thema 5 yn eitem agenda byw.**
- NJ: Yn benodol, Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog a Gwasanaethau Ieuenctid yn yr ardal honno yn agored i gymryd rhan mewn prosiectau.
- **Cytunwyd y byddai GR a DG yn edrych i greu a chynnal rhestr o weithiau academaidd cysylltiedig â thirwedd / diwydiant llechi.**

DA, HJ

GR / DG

Cyfarfod ac adroddiad blynyddol

- Cyfarfod blynyddol wedi'i drefnu ar gyfer dydd Iau, 16 Tachwedd, Blaenau Ffestiniog. Cell B fel lleoliad posib. Fe all adloniant neu daith gerdded gyhoeddus helpu i ddenu mwy o fynychwyr.

Crynodebau cytunedig o gyfarfodydd grŵp Cadwraeth a Buddion i'w defnyddio yn symud ymlaen.

Is-grŵp Cadwraeth

- Cynlluniau Rheoli Lleol - ailystyried a yw'r rhain yn parhau yn addas i bwrpas yn eu fformat presennol. Edrych i'w symleiddio nhw a sicrhau eu bod nhw'n ddogfennau byw.
- Mae Cynlluniau Lleol / Cynlluniau Cynefin wedi eu disodli gan y Cynllun Ardal.
- Trafodwyd pwysigrwydd / anawsterau o gofnodi effaith gwaelodlin safle TyB ar yr iaith Gymraeg. Bydd rhaid i ni fod yn hyderus yn y ffordd y caiff hyn ei ddehongli.
- Briffiau cadwraeth yn gysylltiedig â'r LUF i gael eu hysbysebu wythnos nesaf.
- 'Golygfeydd allweddol' ICOMOS - anodd i'w diffinio o fewn cyd-destun ein safle TyB ac o ran cynllunio. **Cadw fel eitem agenda byw.**
- DW: yn bryderus am brosiectau LUF yn cael eu cyflwyno ar amser. Grŵp cadwraeth - hyderus y gallwn gyflawni prosiectau cadwraeth, AB yn blaenoriaethu rhain.
- Troseddau Treftadaeth - Grŵp Gogledd Cymru yn cael ei ffurfio. DW: cynnwys Liz Saville Roberts os nad yw'r heddlu yn mynychu'r cyfarfod nesaf.
- **Gofyn i KR a yw'n iawn disgwyl tan fydd adnoddau gogledd Cymru wedi'u cynhyrchu cyn cylchredeg.**
- Adolygiad cyfnodol - cyflwyniad terfynol wedi'i yrru i UNESCO Gorffennaf 2023, disgwyl am adborth ar gyflwyniadau unigol, a chyflwyniad y DU cyfan. Dylid derbyn adborth yn Hydref 2023.

DA, HJ

DA

<ul style="list-style-type: none"> Gwarchodaeth - AB (ddim yn bresennol) yn parhau i weithio ar ddynodiadau Dinorwig. <p>Is-Grŵp Buddion</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyfarfodydd wedi bod yn mynd yn dda, presenoldeb yn cynyddu. Amrywiaeth o ddatblygiadau yn digwydd, e.e. Llechwedd, Breedon, Amgueddfa Lechi. Dogfennu pensaernïaeth Dorothea. Roedd gwaith Lafan ar y briff sgiliau traddodiadol yn galonogol (ariennir gan y Loteri, ar hyn o bryd ar y cam sgopio). ER: mae'r prosiect yma'n bwysig i'r amgueddfa. Presenoldeb da yn y sesiwn galw heibio ar ddatblygiad Maenofferen. Mae'n rhaid i ni ddechrau cyflawni - llawer o bobl nawr yn ymwybodol o'n statws TyB. Pryder ynglŷn â hwb Blaenau Ffestiniog - mae angen swyddog treftadaeth i symud pethau yn eu blaenau. Gwneud addysg yn bwynt ffocws y cyfarfod Buddion nesaf. Digwyddiadau busnes wedi'u trefnu ar gyfer y gwanwyn. MB: Mae prosiectau wedi'u hariannu gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (gan gynnwys rhwydwaith trafniadaeth gwyrdd) yn eu camau cynnar. Angen mwy o ddeialog rhwng safleoedd BUEGC a'r safle TyB. NJ: Gall Dyfrig neu Alwen hwyluso hyn - cyflwyniad i'r grŵp Buddion yn y dyfodol? DA i ddsbarthu cyflwyniadau o gyfarfod y grŵp Buddion. Croeso Cymru: Timau Gwynedd angen canolbwyntio ar safle TyB ond mae'n rhaid i ni egluro beth rydym ni ei eisiau. DW: dim digon yn cael ei wneud ar lefel y DU i hybu Cymru. <p>Adborth anffurfiol ar y datblygiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> Yr Amgueddfa Lechi wedi bod mewn cysylltiad, dyddiad wedi'i bennu ar gyfer Parc Padarn. Zip World yn gweld y broses yn ddefnyddiol. DW: amserlen ar gyfer ail-ddatblygiad yr Amgueddfa yn heriol iawn, wedi annog yr amgueddfa i godi unrhyw broblemau efo'r Bwrdd os oes angen. 	<p>DA, MB, HJDA</p> <p>DA</p>
<p>4. Cyllid</p> <ul style="list-style-type: none"> TS yn crynhoi gweithgaredd Llewyrch o'r Llechi. DW yn annog TS i amlygu unrhyw risgiau i'r prosiect. NJ: mae'n dda clywed am y prosiect celf cyhoeddus. Gweithred: HJ i roi diweddariad bras i NJ am y prosiect celf cyhoeddus. Ail-ddatblygiad yr Amgueddfa Lechi: ER yn cyflwyno cynnydd diweddar. MB yn holi o ran yr ymrwymiad i wneud yr amgueddfa yn hwb STyB. HJ i ddarparu gwybodaeth ychwanegol. <p>Prosiectau Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NHLF)</p> <ul style="list-style-type: none"> Crynhodd HJ y briffiau amrywiol sy'n mynd rhagddynt. LT i ddarparu adroddiad mwy cynhwysfawr yn y dyfodol. Soniodd HJ am ddigwyddiad Llesiant Hanesion Llechi, 7 Hydref 2023 ym Mhlas Tan y bwlch. Gweler tudalen Facebook Llechi Cymru am ragor o fanylion. DA i ddsbarthu taflen efo nodiadau'r cyfarfod. 	<p>HJ</p> <p>HJ</p> <p>DA</p>

<ul style="list-style-type: none"> • DA i gysylltu efo'r grŵp ynglŷn â'r ymwneud efo prosiect Llysgenhadon Llechi Ifanc. 	DA
<p>5. Themâu trawsbynciol</p> <p>Ellen Bonner, Prifysgol Bangor, cyflwyniad: Ymchwil: Yr Iaith Gymraeg a'r Economi Ymweld Cynaliadwy</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pa gyfleoedd sy'n codi yn gysylltiedig â'r iaith Gymraeg o ran y safle TyB? • Grwpiau ffocws, Bethesda: pryderon yn cynnwys: effaith twristiaeth ar yr iaith Gymraeg, pobl ifanc yn gadael yr ardal i ddarganfod gwaith. • DW: wedi holi ynglŷn â'r berthynas rhwng cymuned, iaith, twristiaeth a phobl ifanc 'ddim yn gweld dyfodol'. 'A ddaeth hyn i'r fei drwy'r arolwg?' • Eglurodd EB fod y sampl ar gyfer y prosiect yn fychan, angen gofal wrth wneud tybiadau ar y funud. • Gofynnodd NJ i EB a'r bwrdd a oedd angen mwy o waith ar y pwnc yma, ac ein bod yn clywed 'twristiaeth - lladd iaith, budd i bobl'. • RE: 'rhybudd iechyd o'r sampl bach', byddai darn mwy o waith yn ddefnyddiol iawn. Cyd-fynd efo'r Strategaeth Twristiaeth Cynaliadwy sydd ar y gweill. Cyfle i weithio efo ARFOR? • MB: hoffai weld ymchwil feintiol ehangach i siaradwyr Cymraeg mewn rolau rheng flaen yn y diwydiant twristiaeth. Mae yna wrthdaro y gallwn ei gyfarch. • DW: mae'r gwaith yn hynod bwysig. A ellir ei barhau? 'Gadewch i ni gael sgwrs anffurfiol i weld a all hynny fod o gymorth.' • Allwn ni annog pobl ifanc i weithio yn y sector twristiaeth? <p>Economi ymweld cynaliadwy</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd y Strategaeth Twristiaeth Cynaliadwy yn cael ei lansio ddydd Llun, 25 Medi 2023. • Trosolwg yn ystod y cyfarfod bwrdd nesaf. <p>Cyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fe wnaeth TS grynhoi'r strategaeth gyfathrebu y bu'n gweithio arni. <ul style="list-style-type: none"> - Tudalen blog ar y wefan. - Gwneud i bobl deimlo yn rhan o safle TyB. - Gadael i bobl wybod beth rydym yn ei wneud. - Elfennau personol - e.e. mwy o hanesion 'pobl llechi'. - Rhowch unrhyw adborth neu syniadau os gwelwch yn dda. • NJ: cytuno ynglŷn â gwerth yr ochr bersonol, wyneb i wyneb, a chytuno ein bod angen strategaeth gyfathrebu. 	RE
<p>6. Unrhyw fater arall</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cwblhau'r trefniadau ar gyfer y cyfarfod blynyddol. • 16 Tachwedd, ar y cyd efo'r cyfarfod blynyddol. • Adloniant, neu daith gerdded gyhoeddus (DG?). • Blaenau Ffestiniog. 	
<p>7. Dyddiad y cyfarfod nesaf</p> <ul style="list-style-type: none"> • 16 Tachwedd 2023. <p>Eitemau ar y Rhaglen</p> <ul style="list-style-type: none"> • Thema 5 (Addysg). 	

- | | |
|---|--|
| <ul style="list-style-type: none">• Golygfeydd allweddol ICOMOS.• Diweddariad Cronfa Ffyniant Bro. | |
|---|--|